



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Unconfirmed Minutes of the Board Meeting
held on 23 January 2020,
in Room 3/7, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BQ**

Present:		
Kate Eden	(KE)	Chair of meeting. Vice-Chair, Non-Executive Director, and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Jan Williams	(JW)	Chair (Non-Executive Director for this meeting)
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Stephen Palmer	(StP)	Non-Executive Director
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director
Alison Ward From item PHW10/2020	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority) via teleconference
In Attendance:		
Mark Bellis	(MB)	Director of Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being (WHO CC)

Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate
John Boulton	(JB)	Director of NHS Quality Improvement and Patient Safety/Director Improvement Cymru
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development
Barbara Busby For item PHW09/2020	(BB)	OD Consultant / Project Lead for Management Development
Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit
Ryan Crowley From item PHW08/2020	(RC)	Young Ambassador
Paul Dalton	(PD)	Head of Internal Audit, Shared Services (observing the meeting)
Junaid Iqbal From item PHW08/2020	(JI)	Lead for Service User Experience
Neil Lewis For item PHW08/2020	(NL)	Deputy Director of People and Organisational Development
Reanne Reffell	(RR)	Corporate Governance Officer (Secretariat)
Paula Walters For item PHW10/2020	(PW)	Head of Programme Management Office
Karen Williams For item PHW08/2020	(KW)	Interim Assistant Director of People
Communication Support		
Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (simultaneous translation)
Danny Donovan		Digital Communications Manager
Apologies:		
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Shantini Paranjothy	(ShP)	Non-Executive Director (University) and Chair of the Knowledge, Research and Information Committee
Stephanie Wilkinson	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum

The meeting commenced at 09:00

PHW01/2020	Welcome
<p>KE opened the meeting and welcomed all present, noting the use of the Board Etiquette. KE outlined that she was chairing the Board meeting in her role as Vice Chair and HG was acting as Chief Executive as part of business continuity planning arrangements.</p> <p>KE also welcomed all those joining via livestreaming, confirming the availability of papers on Public Health Wales internet. The Board welcomed contributions in both Welsh and English KE highlighted the availability of simultaneous translation.</p>	
PHW02/2020	Apologies
<p>The Board noted the apologies for absence.</p>	
PHW03/2020	Declarations of Interest
<p>Members made no declarations of interest in addition to those already on the declarations of interest register.</p>	
PHW04/2020	Minutes from the Board Meeting on 28 November 2019
<p>The Board approved the minutes as an accurate record of the meeting of 28 November 2019 (ref 3.1.230120).</p>	
PHW05/2020	Board Action Log
<p>The Board noted the Action Log (ref 3.1.2.230120) and the progress of the open actions. The Board approved the closure of the actions marked as complete.</p> <p>Following the introduction of agenda items featuring the organisation's Strategic Partners, Board members requested regular updates regarding ongoing work and developments with Strategic Partners, including expected impact.</p> <p>Action: HB</p>	
PHW06/2020	Matters Arising
<p>There were no matters arising.</p>	
PHW07/2020	Chief Executive's report
<p>The Board received the Chief Executive's Report (ref 4.230120).</p> <p>HG drew attention to a recent Executive to Executive meeting with Public Health England that focused on areas of joint action towards European Union transition, the development of behavioural change work, and a shared approach to both early years' work, and climate change.</p>	

QS commented on the investigation of a Coronavirus outbreak in Wuhan, China advising of actions undertaken in Wales and the United Kingdom. Members acknowledged and thanked the Public Health Services team for their continued system leadership of emerging incidents.

JW highlighted recent constructive meetings with Ministers around the active travel initiative, health prevention agenda, launch of the international strategy, and the organisation's plans on its Public Health Institute role.

Board members reflected on the organisation's response to Climate Change, and sought assurance on the practical discussions and steps underway. HG summarised Public Health Wales' contribution to the Welsh agenda for sustainability. QS confirmed that Public Health Wales was actively engaging with the Climate Change agenda: through the development of round table discussions with Welsh Government and Natural Resource Wales, and the publication of the Climate Change plan and Health Impact assessment later this year. He noted the need to align internal resources to this work.

PHW08/2020 Recruitment Deep Dive

The Board **received** the Recruitment Deep Dive (ref [5.1.230120](#)).

In introducing the presentation, PB commented on the clear links between recruitment and the Public Health Wales Strategy, People Strategy and Workforce Plan, and the overall aim to ensure that Public Health Wales continued to be an inclusive, flexible and attractive employer.

As part of the presentation, KW and NL outlined a review of the recruitment planning and subsequent process, which had identified short and long-term challenges. They highlighted the creative approach needed to address communication and behavioural change skills, to build capacity and to enable the organisation to become an employer of choice, particularly for hard to fill posts. The Board reflected on the recruitment activity planned to meet directorate needs, and the proposed review of the People and Organisational Development structure to enable the delivery of this ambition.

The Board reflected on the work underway, which underpinned the Integrated Medium Term Plan and People Strategy, and sought assurance on the recruitment of approximately five percent of the workforce (93 posts) in the first quarter of 2020-21, critical to the delivery of the operational plan. NL confirmed that he was content that, through the People and Organisational Development reorganization, appropriate resource allocation and engagement with directorates on job descriptions and planning, the organisation would deliver the level of recruitment required. He went on to ask that directorates prioritise this area of work.

Board members then discussed the need for a formal strategic approach at an international level, and the effect that uncertainty around the UK position on

migration was having on European/international recruitment efforts.

Members acknowledged the effect of recruitment issues on performance, and set a challenge to improve the long-term position by strengthening links with education establishments. PB advised of work being undertaken in respect of young people, including graduates. This would be completed later this year.

Action: PB

Board members voiced their view that the forthcoming recruitment drive represented an opportunity for an exciting transition and development of the organisation. They reflected on the large investment secured to improve the Public Health protection service. Separately, Public Health Wales was working with the Royal College of Radiologists and Radiographers to strengthen roles in the breast screening service. Recently Public Health Wales had successfully recruited a Breast Radiologist in North Wales, which would allow the programme to increase resilience across the network, using digital connections.

The Board also considered the need to tap into new markets for recruitment in a structured way to promote the organisational offer to individuals, as well as ensuring those that trained in Wales then applied for roles in Wales. The organisation should also – where possible and appropriate - seek to highlight flexibility within the advert and job description, and continue to build upon the success of recent open days. PB commented on the importance to recruitment of location and job design and suggested that role redesign could reduce the number of radiologists and microbiologists required.

Board members discussed apprenticeships; PB acknowledged that the apprenticeship focus had been around young people, and agreed to explore the possibility of higher-level apprenticeships.

Action: PB

JA and MB, RC and JI joined the meeting.

Board members went on to request a summary of the correlation between vacancies and the risk to the success of the organisation, and how this was being managed. HG suggested the translation of this issue into a mission critical action plan, reviewed through Board Assurance Framework discussions at Board.

Action: PB/HB

The Board took **assurance** from the identification of potential barriers to effective and efficient recruitment and the measures in hand to address them. The Board thanked KW and NL for their comprehensive presentation, noting the plans in place to improve the organisation's response to recruitment.

PHW09/2020	People Strategy 2020- 2030
-------------------	-----------------------------------

The Board **received** the People Strategy 2020 – 2030 (ref [5.2.230120](#)).

PB introduced the Strategy, which aimed to reflect the organisation’s ambition to achieve a flexible, sustainable and thriving Public Health Workforce, with the capacity to deliver the organisation’s long-term strategy, *Working to achieve a healthier future for Wales 2018-2030*. BB then outlined the nine themes underpinning the strategy.

In a wide-ranging discussion, Board members emphasised the need to attract a workforce with the strong public health and research skills necessary to inform and develop the organisation’s work. Reflecting on future skills, members suggested explicit inclusion of engagement with academia and professional bodies; brand narrative; and the creation of a flexible working environment on an equitable All Wales basis.

Action: PB

RBW confirmed that the Quality and Improvement Strategy would focus on the approach to stakeholders within this context, and would work closely with the People and Organisational Development team.

Board members concluded the discussion by thanking KW, NL and BB for their focus around the recruitment process and people strategy. Members reflected on the challenges and opportunities in short term and long term planning of recruiting for 93 high quality fair work jobs, noting further work around the smartness of objectives, and engagement with academia, faculty, and the international level.

The Board **agreed** to receive the recruitment action plan and workforce plan at the March Board meeting.

Action: PB

Board members **approved** the contents of the People Strategy 2020-2030, subject to inclusion of recommended amendments.

*NL, KW, BR LEFT
PW joined the meeting*

PHW10/2020	Strategic Plan Approval 2020 - 2023
-------------------	--

The Board **received** the revised and updated 2020-2023 Strategic Plan (Integrated Medium Term Plan) (ref [5.3.230120](#)).

In introducing the plan, HG outlined the key roles, risks and deliverables, noting that the Board would consider the Outcomes Framework at the March meeting. This would provide greater accountability against organisational ambitions. HG referred to the positive progress in investment schemes,

assuring the Board that the organisation would not face any unplanned exposure.

Executive team members provided an update on their relevant strategic priority area.

Following a wide range of discussions, Board members commented on the good practice contained within the report, and went on to consider the following areas of improvement:

- To exercise the organisation's influencing role around health and housing, encouraging the NHS to invest from its core allocation in housing and winter planning.
- To energise the language around deliverables and outcomes of each of the priority areas, highlighting the commitments on page 75 at the start of the document as a key system offer and the development of the branding narrative.
- To review the language around the Child Health Surveillance System
- To consider whether there was a role for the organisation in promoting living wills, recognizing the work undertaken to support end of life care.
- To continue engagement with primary care clusters, particularly around increased coverage rates and inequalities of access for vaccination and screening programmes. Board members went on to consider the challenges and step process plan to reduce the bowel screening age and noted the demonstrable progress made against the endoscopy wait list.
- The Knowledge, Research and Information Committee to consider a fundamental map of evidence as a product for next year.
- To recognise the need for action plans to underpin the operational plan, how this work translated into the processes of the Board and Committees, and the links with outcome work.

JW commented that the Board members should not underestimate how much headroom being an approved organisation provided, in terms of opportunity and flexibility to achieve our ambition, and thanked all those involved.

The Board noted that members would receive the final version for information, which would include an update to the section on risk.

Action: HB

The Board **approved** the Strategic Plan 2020-2023 subject to the inclusion of the above recommendations.

Action: HG

PW left the meeting.

PHW11/2020	Building a Healthier Wales
-------------------	-----------------------------------

The Board **received** the Building a Healthier Wales January Update (ref [5.4.230120](#)).

In introducing the report, JA provided a summary of the Building a Healthier Wales programme, and outlined the five key priority areas for investment to transform health and well-being in Wales, and particularly the focus on health and housing, and optimising early years.

The Board also reflected on the engagement with Cymru Well Wales and the early success of securing £7.2 million investment for prevention and early years. JW commented on the commitment shown by the Minister for Health and Social Services, and advised of an upcoming meeting to consider next steps.

AW commented on the Building a Healthier Wales coordinating group workshop, noting the need to refine oversight requirements, and the opportunity the group presents to promote shared learning and good practice.

The Board **noted** the position and looked forward to future updates as appropriate during 2020/21.

Action: JA

PHW12/2020	Integrated Performance Report
-------------------	--------------------------------------

The Board **received** the performance report (ref [6.1.230120](#)).

Strategic priorities

The Board reflected on its consideration of each of the strategic priorities in detail during the approval of the Strategic Plan 2020-23 but sought further detail on the organisation's screening programmes.

QS advised the Board that a drop in breast screening uptake resulted from long standing workforce challenges. Board members took assurance from the mitigating steps in place to provide additional resilience across the service and looked forward to seeing demonstrative improvement in the next report.

The Board considered the bowel screening optimisation plan, noting the mitigating factors in place to minimise disruption.

Financial Performance Month 09 2019/20

Members received the month 09 financial performance, noting the breakeven forecast position at year-end.

PHW13/2020	Update on the Impact of Leaving the European Union
-------------------	---

The Board **received** the update on the Impact of Leaving the European Union (ref [6.2.230120](#)).

The Board thanked QS for the update, recommending that future reports should provide assurance on business continuity, impact on staff and the supply of drugs/ medicines.

Action: QS

PHW14/2020	Board Assurance Framework
-------------------	----------------------------------

The Board **received** the Board Assurance Framework (BAF) (ref [7.1.230120](#)) introduced by HB.

The Board considered the updates to the previous version of the BAF, agreed to its closure, and took **assurance** from the transition process document provided.

The Board went on to consider the revised content in the new version of the BAF, noting continued developments around assurance mapping and a broader assurance framework. The Board noted that HB and the Executive Team would continue to consider the headline presentation of risk 2, underpinned by additional details, and revise risk 1 to reflect discussions held earlier in the Board meeting.

Action: Executive Team

The Board **noted** the intention to consider risk appetite at the April 2020 Board Development Day.

The Board **approved:**

- The revised Board Assurance Framework and its content
- The addition of risk 8, which related to data accuracy, evidence and evaluation within the organisation.
- The change in Committee assurance responsibility for Risk 4, Cyber Security from the Knowledge, Research and Information Committee to the Audit and Corporate Governance Committee.
- The Board also welcomed the previously agreed enhancement of the roles and responsibilities of Board Committees.

Board Members thanked HB and the people involved in this considerable piece of work.

PHW15/2020	Self-assessment of Current Quality Governance Arrangements
-------------------	---

The Board **received** the Self-assessment of Current Quality Governance Arrangements report (ref [7.2.230120](#)).

Board members reflected on their substantive contribution to the self-assessment report submitted to Welsh Government in January 2020.

The Board **noted** that the Audit and Corporate Governance Committee, and Quality and Safety and Improvement Committee would take forward ongoing monitoring arrangements.

Action: KE and RBW / DE, HG and HB

PHW16/2020 Policy on Policy and Written Control Documents - for approval

The Board **received** the Policy on Policy and Written Control Documents (ref [7.3.230120](#)).

The Board noted the expected change to the policy to reflect the Welsh Language Standards and the consideration of the All Wales policy position at the last Audit and Corporate Governance Committee.

The Board **approved** the Policy and Written Control Documents policy.

PHW17/2020 Wellbeing of Future Generation Act – Mid Year Review

The Board **received** and **noted** for information the Wellbeing of Future Generation Act - Mid Year Review (ref [8.230120](#)).

PHW18/2020 Date of next meeting

26 March 2020 at 09.00 to be held at Public Health Wales, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff. CF10 4BZ.

As there were no questions received from staff, KE closed the meeting in public session, explaining the reasons behind any subsequent meeting in private session.

The Public Session closed at 13:10

The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020,
Ystafell 3.7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ**

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y cyfarfod Is-gadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer y cyfarfod hwn)
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Stephen Palmer	(StP)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Dr Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol
Alison Ward o eitem PHW10/2020	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) drwy gyswllt telegynadledda
Hefyd yn Bresennol:		

Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/1000 o Fywydau
Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Barbara Busby ar gyfer eitem PHW09/2020	(BB)	Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadol/Arweinydd Prosiect ar gyfer Datblygu Rheolaeth
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ryan Crowley o eitem PHW08/2020	(RC)	Llysgennad Ifanc
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Cydwasanaethau (yn arsylwi ar y cyfarfod)
Junaid Iqbal o eitem PHW08/2020	(JI)	Arweinydd Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau
Neil Lewis ar gyfer eitem PHW08/2020	(NL)	Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
Paula Walters ar gyfer eitem PHW10/2020	(PW)	Pennaeth y Swyddfa Rheoli Rhaglenni
Karen Williams ar gyfer eitem PHW08/2020	(KW)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro Pobl
Cymorth Cyfathrebu		
Rhian Huws		Cwmni Canna Cyfyngedig (cyfieithu ar y pryd)
Danny Donovan		Rheolwr Cyfathrebu Digidol
Ymddiheuriadau:		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Shantini Paranjothy	(ShP)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00

PHW01/2020	Croeso
<p>Agorodd KE y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol, gan nodi'r defnydd o god Moesau'r Bwrdd. Eglurodd KE ei bod yn cadeirio cyfarfod y Bwrdd yn ei rôl fel Is-gadeirydd a bod HG yn gweithredu fel Prif Weithredwr fel rhan o drefniadau cynllunio parhad busnes.</p> <p>Hefyd croesawodd KE bawb oedd yn ymuno drwy ffrydio byw, a chadarnhawyd bod papurau ar gael ar ryngrwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y Bwrdd yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a nododd KE fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>	
PHW02/2020	Ymddiheuriadau
<p>Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.</p>	
PHW03/2020	Datgan Buddiannau
<p>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan yr aelodau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datganiadau o fuddiannau.</p>	
PHW04/2020	Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019
<p>Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 (cyf 3.1.230120).</p>	
PHW05/2020	Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd
<p>Nodwyd y Cofnod o'r Camau Gweithredu (cyf 3.1.2.230120) gan y Bwrdd a'r cynnydd o ran y camau gweithredu agored. Cymeradwyodd y Bwrdd y dylid cau'r camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.</p> <p>Yn dilyn cyflwyno eitemau ar yr agenda a oedd yn cynnwys Partneriaid Strategol y sefydliad, gofynnodd aelodau'r Bwrdd am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch datblygiadau a gwaith parhaus â Phartneriaid Strategol, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig.</p> <p>Camau gweithredu: HB</p>	
PHW06/2020	Materion yn Codi
<p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi.</p>	
PHW07/2020	Adroddiad y Prif Weithredwr
<p>Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr (cyf 4.230120).</p> <p>Tynnodd HG sylw at gyfarfod diweddar â swyddogion gweithredol Public Health England a oedd yn canolbwyntio ar feysydd gweithredu ar y cyd mewn perthynas â phontio o'r Undeb Ewropeaidd, datblygu gwaith newid ymddygiad, a dull a rennir tuag at waith blynyddoedd cynnar a newid yn yr hinsawdd.</p>	

Gwnaeth QS sylw ar yr ymchwiliad i'r achos o'r Coronafeirws yn Wuhan, Tsieina a nododd y camau a gymerwyd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Rhoddodd yr aelodau gydnabyddiaeth i dîm Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus am ei waith a diolch iddo am ei arweinyddiaeth barhaus mewn perthynas â digwyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Tynnodd JW sylw at gyfarfodydd adeiladol diweddar â Gweinidogion ynghylch y fenter teithio llesol, yr agenda atal, lansio'r strategaeth ryngwladol, a chynlluniau'r sefydliad o ran ei rôl fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus.

Bu aelodau'r bwrdd yn myfyrio ar ymateb y sefydliad i Newid yn yr Hinsawdd, a cheisiwyd sicrwydd ynghylch y trafodaethau ymarferol a'r camau sydd ar y gweill. Aeth HG at i grynhoi cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at agenda cynaliadwyedd Cymru. Cadarnhaodd QS fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan weithredol yn yr agenda Newid yn yr Hinsawdd: drwy ddatblygu trafodaethau bord gron â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a chyhoeddi cynllun Newid yn yr Hinsawdd ac asesiad Effaith ar Iechyd yn ddiweddarach eleni. Nododd yr angen i sicrhau bod adnoddau mewnol yn cydfynd â'r gwaith hwn.

PHW08/2020 Sesiwn Graffu Fanwl ar Recriwtio

Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad ar y Gwaith Craffu Manwl ar Recriwtio (cyf [5.1.230120](#)).

Yn y rhagarweiniad i'r cyflwyniad, nododd PB y cysylltiadau clir rhwng recriwtio a Strategaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Strategaeth Pobl a Chynllun y Gweithlu, a'r nod cyffredinol o sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn gyflogwr cynhwysol, hyblyg a deniadol.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellodd KW a NL adolygiad o'r cynllun recriwtio a'r broses ddilynol, a oedd wedi amlygu heriau tymor byr a hirdymor. Tynnwyd sylw at y dull creadigol sydd ei angen i fynd i'r afael â sgiliau cyfathrebu a newid ymddygiad, i feithrin gallu ac i alluogi'r sefydliad i fod yn ddewis gyflogwr, yn enwedig o ran swyddi sy'n anodd eu llenwi. Ystyriodd y Bwrdd y gweithgaredd recriwtio sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion y gyfarwyddiaeth, a'r adolygiad arfaethedig o strwythur Datblygu Sefydliadol a Phobl er mwyn cyflawni'r uchelgais hon.

Ystyriodd y Bwrdd y gwaith sydd ar y gweill, sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Strategaeth Pobl, a cheisiwyd sicrwydd ynghylch recriwtio oddeutu pump y cant o'r gweithlu (93 swydd) yn chwarter cyntaf 2020-21, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r cynllun gweithredol. Cadarnhaodd NL ei fod yn fodlon, drwy ad-drefnu yr adran Datblygu Sefydliadol a Phobl, dyrannu adnoddau yn briodol ac ymgysylltu â chyfarwyddiaethau wrth lunio swydd-ddisgrifiadau a chynllunio, y byddai'r sefydliad yn llwyddo i recriwtio'r niferoedd sydd eu hangen. Aeth ymlaen i ofyn i gyfarwyddiaethau flaenoriaethu'r maes

gwaith hwn.

Yna trafododd aelodau'r bwrdd yr angen am ddull strategol ffurfiol ar lefel ryngwladol, a'r effaith yr oedd ansicrwydd ynghylch safbwynt y DU ar fudo yn ei chael ar ymdrechion i recriwtio yn Ewrop/yn rhyngwladol.

Roedd yr aelodau'n cydnabod effaith materion recriwtio ar berfformiad, a gosodwyd her i wella'r sefyllfa hirdymor drwy gryfhau cysylltiadau â sefydliadau addysg. Hysbysodd PB am fuddsoddiad mewn cynllun graddio a chytunodd i gynnwys goresgyn yr her hon yn yr atebion hirdymor.

Camau gweithredu: PB

Lleisiodd aelodau'r bwrdd eu barn bod yr ymgyrch recriwtio arfaethedig yn gyfle cyffrous i drawsnewid a datblygu'r sefydliad. Trafodwyd y buddsoddiad mawr a sicrhawyd i wella'r gwasanaeth diogelu Iechyd Cyhoeddus. Hefyd, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio â Choleg Brenhinol y Radiolegwyr a'r Radiograffwyr i gryfhau rolau yn y gwasanaeth sgrinio'r fron. Yn ddiweddar roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llwyddo i recriwtio Radiolegydd y Fron yng Ngogledd Cymru, a fyddai'n galluogi'r rhaglen i gynyddu ei gwytnwch ar draws y rhwydwaith, gan ddefnyddio cysylltiadau digidol.

Ystyriodd y Bwrdd hefyd yr angen i fanteisio ar farchnadoedd recriwtio newydd mewn modd strwythuredig i hyrwyddo'r cynnig sefydliadol i unigolion, yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n hyfforddi yng Nghymru wedyn yn ymgeisio am swyddi yng Nghymru. Dylai'r sefydliad hefyd - lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol - geisio tynnu sylw at hyblygrwydd yn yr hysbyseb a'r swydd-ddisgrifiad, a pharhau i adeiladu ar lwyddiant y diwrnodau agored diweddar. Gwnaeth PB sylw am bwysigrwydd lleoliad a dyluniad y swydd i recriwtio ac awgrymodd y gallai ailgynllunio rolau leihau nifer y radiolegwyr a'r microbiologwyr sydd eu hangen.

Trafododd aelodau'r bwrdd brentisiaethau; roedd PB yn cydnabod bod ffocws prentisiaethau wedi bod ar bobl ifanc, a chytunodd i ymchwilio i'r posibilrwydd o brentisiaethau lefel uwch.

Camau gweithredu: PB

Ymunodd JA a MB, RC a JI â'r cyfarfod.

Aeth aelodau'r bwrdd ymlaen i ofyn am gynodeb o'r gydberthynas rhwng swyddi gwag a'r risg i lwyddiant y sefydliad, a sut roedd hyn yn cael ei reoli. Awgrymodd HG y dylid creu cynllun ar y mater hollbwysig hwn, a adolygir drwy drafodaethau ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Camau gweithredu: PB/HB

Cafodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r ffaith bod rhwystrau posibl i recriwtio'n effeithiol ac effeithlon yn cael eu nodi a'r mesurau sydd ar y gweill i oresgyn y rhwystrau hynny. Diolchodd y Bwrdd i KW a NL am eu cyflwyniad cynhwysfawr, gan nodi'r

cynlluniau sydd ar waith i wella ymateb y sefydliad i recriwtio.

PHW09/2020 Strategaeth Pobl 2020-2030

Derbyniodd y Bwrdd Strategaeth Pobl 2020-2030 (cyf [5.2.230120](#)).

Cyflwynodd PB y Strategaeth, sydd â'r nod o adlewyrchu uchelgais y sefydliad i sicrhau Gweithlu Iechyd Cyhoeddus hyblyg, cynaliadwy a ffyniannus, â'r gallu i gyflawni strategaeth hirdymor y sefydliad, *Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru 2018-2030*. Yna amlinellodd BB y naw thema sy'n sail i'r strategaeth.

Mewn trafodaeth eang, pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd yr angen i ddenu gweithlu â'r sgiliau iechyd cyhoeddus ac ymchwil cryf sy'n angenrheidiol i lywio a datblygu gwaith y sefydliad. Gan fyfyrto ar sgiliau'r dyfodol, awgrymodd yr aelodau y dylid cynnwys ymgysylltu â'r byd academiaidd a chyrrff proffesiynol; naratif brand; a chreu amgylchedd gwaith hyblyg ar sail deg yng Nghymru.

Camau gweithredu: PB

Cadarnhaodd RBW y byddai'r Strategaeth Ansawdd a Gwella yn canolbwyntio ar yr agwedd tuag at randdeiliaid yn y cyd-destun hwn, a byddai'n gweithio'n agos â'r tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Daeth y drafodaeth i ben gydag aelodau'r Bwrdd yn diolch i KW, NL a BB am eu ffocws o ran y broses recriwtio a strategaeth pobl. Ystyriodd yr aelodau yr heriau a'r cyfleoedd wrth gynllunio recriwtio yn y tymor byr a'r hirdymor ar gyfer 93 o swyddi gwaith teg o ansawdd uchel, gan nodi gwaith pellach ar amcanion doeth, ac ymgysylltu â'r byd academiaidd, cyfadrannau, ac ar lefel ryngwladol.

Cytunodd y Bwrdd i dderbyn y cynllun gweithredu ar recriwtio a chynllun y gweithlu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Camau gweithredu: PB

Cymeradwyodd Aelodau'r Bwrdd gynnwys Strategaeth Pobl 2020-2030, yn amodol ar ymgorffori'r diwygiadau a argymhellwyd.

*Gadawodd NL, KW, BR
Ymunodd PW â'r cyfarfod*

PHW10/2020 Cymeradwyo Cynllun Strategol 2020-2023

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Strategol 2020-2023 wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau (Cynllun Tymor Canolig Integredig) (cyf [5.3.230120](#)).

Wrth gyflwyno'r cynllun, amlinellodd HG y rolau, y risgiau a'r targedau allweddol i'w cyflawni, gan nodi y byddai'r Bwrdd yn ystyried y Fframwaith Canlyniadau yng nghyfarfod mis Mawrth. Byddai hyn yn darparu mwy o atebolrwydd mewn perthynas ag uchelgeisiau sefydliadol. Cyfeiriodd HG at y cynnydd cadarnhaol mewn cynlluniau buddsoddi, gan sicrhau'r Bwrdd na

fyddai'r sefydliad yn agored i risg.

Rhoddodd aelodau'r tîm gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf am eu maes blaenoriaeth strategol perthnasol.

Yn dilyn ystod eang o drafodaethau, nododd aelodau'r Bwrdd yr arfer da yn yr adroddiad, ac aethant ymlaen i ystyried y meysydd canlynol i wella arnynt:

- Gweithredu rôl ddylanwadol y sefydliad o ran iechyd a thai, gan annog y GIG i fuddsoddi mewn tai a chynllunio ar gyfer y gaeaf o'i ddyraniad cyllid craidd.
- Bywiogi'r iaith yn ymwneud â chyflawniadau a chanlyniadau'r meysydd blaenoriaeth, gan dynnu sylw at yr ymrwymadau ar dudalen 75 ar ddechrau'r ddogfen fel cynnig allweddol a datblygu'r naratif brandio.
- Adolygu'r iaith sy'n ymwneud â'r System Gwyliadwriaeth Iechyd Plant
- Ystyried a oes rôl i'r sefydliad o ran hyrwyddo ewyllysiau byw, gan gydnabod y gwaith a wneir i gefnogi gofal diwedd oes.
- Parhau i ymgysylltu â chlystyrau gofal sylfaenol, yn enwedig o ran cynyddu'r cyfraddau sy'n manteisio ar raglenni brechu a sgrinio a lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad i'r rhaglenni hynny. Aeth aelodau'r bwrdd ymlaen i ystyried yr heriau a'r cynllun proses cam wrth gam i leihau oedran y prawf sgrinio'r coluddyn a nodwyd y cynnydd amlwg a wnaed yn erbyn y rhestr aros ar gyfer endosgopi.
- Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil i ystyried map tystiolaeth sylfaenol fel cynnyrch ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Cydnabod yr angen am gynlluniau gweithredu i ategu'r cynllun gweithredol, a sut mae'r gwaith hwn yn bwydo i brosesau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, a'r cysylltiadau â gwaith canlyniadau.

Dywedodd JW na ddylai aelodau'r Bwrdd danamcangyfrif faint o ryddid sydd gennym o ganlyniad i fod yn sefydliad cymeradwy, o ran cyfle a hyblygrwydd i gyflawni ein huchelgais, a diolchodd i bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Nododd y Bwrdd y byddai'r aelodau'n cael y fersiwn derfynol er gwybodaeth, a fyddai'n cynnwys diweddariad i'r adran ar risg.

Camau gweithredu: HB

Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Strategol 2020-2023 yn amodol ar gynnwys yr argymhellion uchod.

Camau gweithredu: HG

Gadawodd PW y cyfarfod.

PHW11/2020 Creu Cymru Iachach

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad mis Ionawr ar y cynllun Creu Cymru Iachach (cyf [5.4.230120](#)).

Wrth gyflwyno'r adroddiad, darparodd JA grynodedb o'r rhaglen Creu Cymru Iachach, ac amlinellodd y pum maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi er mwyn trawsnewid iechyd a llesiant yng Nghymru, ac yn enwedig y ffocws ar iechyd a thai, a gwneud y gorau o'r blynyddoedd cynnar.

Ystyriodd y Bwrdd hefyd yr ymgysylltiad â Cymru Well Wales a'r llwyddiant cynnar o ran sicrhau buddsoddiad o £7.2 miliwn ar gyfer gwaith atal a'r blynyddoedd cynnar. Cyfeiriodd JW at yr ymrwymiad a ddangoswyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a hysbysodd y Bwrdd bod cyfarfod wedi'i drefnu i ystyried y camau nesaf.

Gwnaeth AW sylw ar weithdy grŵp cydlynu Creu Cymru Iachach, gan nodi'r angen i fireinio gofynion goruchwyllo, a'r cyfle drwy'r grŵp i hyrwyddo dysgu ar y cyd ac arfer da.

Nododd y Bwrdd y sefyllfa gan edrych ymlaen at ddiweddariadau yn y dyfodol fel y bo'n briodol yn ystod 2020/21.

Camau gweithredu: JA

PHW12/2020 Adroddiad Perfformiad Integredig

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad (cyf [6.1.230120](#)).

Blaenoriaethau strategol

Ystyriodd y Bwrdd bob un o'r blaenoriaethau strategol yn fanwl wrth gymeradwyo Cynllun Strategol 2020-23 ond gofynnwyd am fanylion pellach am raglenni sgrinio'r sefydliad.

Dywedodd QS wrth y Bwrdd fod gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael profion sgrinio'r fron yn deillio o heriau yn ymwneud â'r gweithlu sydd wedi bodoli ers amser maith. Cafodd aelodau'r bwrdd sicrwydd o'r camau lliniarol sydd ar waith i ddarparu gwytnwch ychwanegol ar draws y gwasanaeth ac roeddent yn edrych ymlaen at weld gwelliant yn yr adroddiad nesaf.

Ystyriodd y Bwrdd gynllun optimeiddio sgrinio'r coluddyn, gan nodi'r ffactorau lliniarol sydd ar waith er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y gwasanaeth.

Perfformiad Ariannol Mis 09 2019/20

Derbyniodd yr aelodau'r adroddiad ar berfformiad ariannol mis 09, gan nodi'r rhagolygon y bydd y sefydliad yn mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

PHW13/2020 Diweddariad ar Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Derbyniodd y Bwrdd y diweddariad ar Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd (cyf [6.2.230120](#)).

Diolchodd y Bwrdd i QS am y diweddariad, gan argymhell y dylai adroddiadau

yn y dyfodol roi sicrwydd ar barhad busnes, yr effaith ar staff a chyflenwad o gyffuriau/meddyginiaethau.

Camau gweithredu: QS**PHW14/2020 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Derbyniodd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (cyf [7.1.230120](#)) a gyflwynwyd gan HB.

Ystyriodd y Bwrdd y diweddariadau i fersiwn flaenorol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cytunodd i'w gau, a chafodd **sicrwydd** o ddogfen y broses bontio a ddarparwyd.

Aeth y Bwrdd ymlaen i ystyried y cynnwys diwygiedig yn fersiwn newydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan nodi datblygiadau parhaus ynghylch mapio sicrwydd a fframwaith sicrwydd ehangach. Nododd y Bwrdd y byddai HB a'r Tîm Gweithredol yn parhau i ystyried prif risg 2, wedi'i hategu gan fanylion ychwanegol, ac yn adolygu risg 1 i adlewyrchu'r trafodaethau a gynhaliwyd yn gynharach yng nghyfarfod y Bwrdd.

Camau gweithredu: Y Tîm Gweithredol

Nododd y Bwrdd y bwriad i ystyried archwaeth risg yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill 2020.

Cymeradwyodd y Bwrdd:

- Fersiwn ddiwygiedig o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ynghyd â'i gynnwys
- Ychwanegu risg 8, a oedd yn ymwneud â chywirdeb data, tystiolaeth a gwerthuso yn y sefydliad.
- Y newid o ran Pwyllgor sy'n gyfrifol am sicrwydd mewn perthynas â Risg 4, Seiberddiogelwch o'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.
- Croesawodd y Bwrdd hefyd y gwelliant a gytunwyd yn flaenorol i rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd.

Diolchodd Aelodau'r Bwrdd i HB a'r bobl fu'n gysylltiedig â'r darn sylweddol hwn o waith.

PHW15/2020 Hunanasesiad o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd Presennol

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad ar Hunanasesiad o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd Presennol (cyf [7.2.230120](#)).

Ystyriodd aelodau'r bwrdd eu cyfraniad sylweddol at yr adroddiad hunanasesu a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

<p>Nododd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn datblygu'r trefniadau monitro parhaus.</p> <p>Camau gweithredu: KE a RBW/DE, HG a HB</p>
<p>PHW16/2020 Polisi ar Ddogfennau Polisi a Rheolaeth Ysgrifenedig - i'w gymeradwyo</p>
<p>Derbyniodd y Bwrdd y Polisi ar Ddogfennau Polisi a Rheolaeth Ysgrifenedig (cyf 7.3.230120).</p> <p>Nododd y Bwrdd y newid disgwylidig i'r polisi i adlewyrchu Safonau'r Gymraeg a'r ystyriaeth a roddwyd i safbwynt polisi Cymru Gyfan yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol diwethaf.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd y polisi ar Ddogfennau Polisi a Rheolaeth Ysgrifenedig.</p>
<p>PHW17/2020 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Adolygiad Canol Blwyddyn</p>
<p>Derbyniodd a nododd y Bwrdd er gwybodaeth Adolygiad Canol Blwyddyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - (cyf 8.230120).</p>
<p>PHW18/2020 Dyddiad y cyfarfod nesaf</p>
<p>26 Mawrth 2020 am 09.00 i'w gynnal yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.</p>
<p>Gan na chafwyd unrhyw gwestiynau gan staff, daeth KE â'r sesiwn gyhoeddus i ben, gan esbonio'r rhesymau ynghylch cynnal unrhyw gyfarfod dilynol mewn sesiwn breifat.</p> <p style="text-align: center;"><i>Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 13:10</i></p>
<p>Yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cyfarfu'r Bwrdd mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddo'n niweidiol i fudd cyhoeddus.</p>